Cynnwys Fideo Ar-lein i Blant 7-11 Oed

Mae S4C yn edrych am gyfres o fideos ar gyfer cyhoeddi ar lwyfannau arlein Stwnsh.

Rydym yn edrych am gynnwys fydd yn denu plant i blatfformau digidol Stwnsh ac i gynyddu cyrhaeddiad a thanysgrifwyr. Bydd angen ystyried yr oedran darged 7-11 ac addasrwydd y cynnwys ar gyfer y platfformau hyn.

Dylai'r cynnwys fod yn bennaf ar gyfer YouTube ond gyda asedau hyrwyddo byr ar gyfer llwyfannau eraill Stwnsh fel Instagram.

Hoffem dderbyn syniadau sy'n ymwneud ag elfennau cyfoes a pherthnasol o fywydau plant. Pethau sy'n eu hysbrydoli, y we, enwogion, chwaraeon, cerddoriaeth, hunaniaeth. Rydym yn agored i dderbyn syniadau ar themau eang ond dylai'r ddiddordebau gynnig ei hun at driniaeth weledol a chyffrous a dangos eu bod yn gallu apelio yn eang.

Rydym yn edrych am syniadau gyda phwyslais cryf ar amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd y cynnwys yn adloniannol gyda neges gymdeithasol gryf gan roi cyfle i blant weld gwahanol agweddau eu bywyd wedi'u hadlewyrchu ar y sgrin.

Mae'r gyllideb cynhyrchu yn ddibynnol ar y cynnwys, ond rydym yn edrych i gomisiynu ar dariff bras o £500 - £1,000 y funud hyd at uchafswm £40,000. Bydd angen i'r gyfres gael hunaniaeth weledol gryf ond bod pennodau unigol yn gweithio ar eu pennau eu eu hunain.

Rydym yn anelu i gyhoeddi y cynnwys yma ar ddechrau Ionawr 2022.

Wrth gynnig syniadau dylid cyflwyno:

- Teitl, strapline, synopsis, amlinelliad strwythr/pennod
- Amlinelliad o'r math o gynnwys a thriniaeth weledol (defnyddiwch gyfeiriadau gweledol),

- Disgrifiad o’ch defnydd o’r platfformau arlein
- Pa dalent allweddol sydd ynghlwm a'r syniad?
- Disgrifiad byr o'r broses castio a'r ffordd byddwch yn sicrhau ansawdd ac amrywiaeth
- Amlinelliad o gyfleoedd a chynlluniau hyrwyddo
- Drafft amserlen saethu a chyhoeddi.
- Amlinelliad syml o unrhyw heriau cynhyrchu penodol ee hawliau, a chydymffurfiaeth, llif gwaith a chyfleu.

Sut i Gynnig Syniadau?

Os oes diddordeb, anfonwch eich syniad ar ffurf dogfen pitch/ dec sleidiau PDF dim mwy na 4 tudalen erbyn 14:00 dydd Gwener y 10fed o Fedi 2021. (Ni ystyrir syniad yn ein cyrraedd yn hwyrach na'r amser hyn).Anfonwch eich cynigion at: tendr@s4c.cymru ac nid at unigolion o fewn S4C. Byddwn yn cadarnhau derbyn y syniad drwy ebost. Mae gwefan gynhyrchu S4C http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys gwybodaeth dechnegol, gytundebol a chyfleu os oes cwestiwn am y prosesau cynhyrchu gennych.

Gallwch gyflwyno mwy nag un syniad. Cadwn yr hawl i beidio comisiynu unrhyw gynigion a dderbynnir

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cynigion.

Online Video Content for Children Aged 7-11

S4C is looking for a video series to publish on Stwnsh's online platforms.

We are looking for content that will attract children to Stwnsh's digital platforms and to increase reach and subscribers. Consideration must be given to the target age and the suitability of content for these platforms.

The content should be created primarily for YouTube with additional short promotional assets created for oher Stwnsh platforms e.g. Instagram.

We would like to recieve ideas that involve contemporary and relevant aspects of children's lives. Things that inspire them, the internet, celebrities, sport, music, identity. We are open to ideas that tackle a broad range of themes but the ideas should lend themselves to an exciting visual treatment.

We are looking for ideas with a strong emphasis on inclusion and diversity. The content will be entertaining with a strong social message, giving children the opportunity to see different aspects of their lives on screen.

The production budget will depend on the needs of the content but we're looking to commission on an approximate tariff of £500 - £1000 per minute up to a maximum of £40,000. The series should have a strong identity across the series but ensuring that videos also work as standalone pieces of content.

We are aiming to publish the content at the beginning of January 2022.

When proposing the new ideas, you should be able to clearly show:

- Title, strapline, synopsis, structure/episode outline

- Outline of the type of content with a visual treatment (use visual references)
- Description of the use of online platforms
- Key talent involved in the production
- Short description of the casting process and how you will ensure quality and diversity
- Outline of marketing opportunities/ideas.
- Draft of shooting and publishing schedule
- A simple outline of the production process that includes rights and compliance, workflow and delivery

How to submit an idea

If you're interested, please send your ideas as a pitch document/slide deck as a PDF of no more than 4 pages to tendr@s4c.cymru by 14:00 Friday, September 10th 2021. We will acknowledge all applications by email. S4C's production website offers useful information regarding delivery, contracts and technical queries should you have any questions regarding the production process

You can submit more than one idea, We reserve the right not to commission any one of the proposals received.

We look forward to receiving your ideas.